# Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

Atodiad A2

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod o:** | Banel Adolygu Dalgylch Y Berwyn | **Dyddiad:** | 4 Tachwedd 2009 |

**Presennol:** Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Carole Burgess (CB); Sharon Jones (ShJ); Alyson Evans (AE); W. Ann Jones (WAJ); Edwina Owen (EO); Bethan Emyr Jones (BEJ); Rhian Llwyd Dafydd (RhLID); Teleri Llwyd Roberts (TLIR) Llyr Edwards (LIE); Dylan Davies (DD); Rhiannon Dafydd (RhD); Dorothy Ann Jones (DAJ); Shan Mererid Edwards (ShME); Brian Llwyd (BLI); Siwan Haf Davies (SHD); Aeron Prysor Jones (APJ); Nia Roberts (NR); Jano Owen (JO); Elwyn Edwards (EE); Dylan Edwards (DE); Dilys Ellis-Jones (DEJ); Gareth Llwewlyn (DLI); Alan Evans (AE); Ann E Jones (AEJ); Sian Gwenllian (SG); J Blake (John Blake); Dewi Davies (DD); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB)

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Crynodeb weithredol**
***(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)***

| Rhif Eitem | Eitem/ Pwnc | Gweithrediad | Gan | Erbyn |
|---|---|---|---|---|
| **3.** | **Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Panel** | Gwahodd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llangwm a'r cynghorwyr lleol perthnasol o ardaloedd Llangwm (Conwy) a Chynwyd (Sir Ddinbych) oherwydd statws yr ysgolion hynny o fewn dalgylch ysgol uwchradd y Berwyn. | SW | 6-11-09 |
| **4.** | **Dadansoddiad Ystadegol** | SW i ysgrifennu at ysgolion i gadarnhau'r hyn sydd ei angen gyda'r Dadansoddiad Dalgylch ac erbyn pa bryd.<br>Ysgolion i ddarparu ymateb cyflawn terfynol | SW<br>Pawb | 6-11-09<br>13-11-09 |
| **6.** | **Ceisiadau am wybodaeth Bellach** | Gwaith pellach ar y posibiliadau o ran cydweithio rhwng ysgolion tref y Bala<br>Cylchredeg papur Cymdeithas yr Iaith ac ymateb Ysgol y Berwyn at bob ysgol yn electroneg. | SW<br>SW | 30-11-09<br>6-11-09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwybodaeth bellach erbyn y cyfarfod nesaf ar:<br>- safonau'r ddarpariaeth gyfredol.<br>- effaith ar y gymuned<br>- effaith newidiadau ar y Gymraeg<br>- rhagolygon cyllidol ysgolion.<br><br>Swyddogion i baratoi dadansoddiad o bob model amgen sy'n bosib.<br><br>Ysgolion i gynnig unrhyw fodelau yr hoffent eu hasesu i SW | SW<br><br>SW<br><br>Pawb | 30-11-09<br><br>30-11-09<br><br>13-11-09 |
| **7.** | **Unrhyw Fater Arall** | Trefnu ystafell fwy addas gyda byrddau a.y.b. erbyn y cyfarfod nesaf<br><br>Swyddogion i drefnu i un cynrychiolydd o bob ysgol ymweld â siroedd sydd á phrofiad o adeiladu ysgolion newydd ac o sefydlu trefniadau o gydweithio.<br><br>Gohirio ymweliadau gydag ysgolion unigol o 23-27 Tachwedd 2009 i 11-15 Ionawr 2010 | RWE<br><br>SW<br><br>RWE | 02-12-09<br><br>13-11-09<br><br>6-11-09 |

| **Cofnod Llawn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif Eitem** | **Eitem/ Pwnc** | **Gweithrediad** | **Gan** | **Erbyn** |
| **1.** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones.<br><br>Diolchodd i Bennaeth Y Berwyn am y croeso. Nodwyd bod y drafodaeth wedi dod i ardal sy'n gyfoethog yn ddiwylliannol ac o ran iaith. Mae rôl bwysig iawn gan ysgolion y cylch ac mae angen gofalu ein bod yn trosglwyddo hyn i genedlaethau'r dyfodol.<br><br>Gobeithir am broses agored gyda chyfraniadau gan bawb er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau i blant. | | |
| **2.** | **Geiriau agoriadol yr Arweinydd Portffolio Addysg** | Nodwyd i ddechrau ei bod hi a'r Cyng Siân Gwenllïan wedi ymweld â phob ysgol yn y cylch ac yn diolch am y croeso. Mae ysgolion o ansawdd yn y cylch sydd yn cynnal Cymreictod.<br><br>Dywedodd mai un o'i phrofiadau cyntaf fel Deilydd Portffolio oedd ymweld ag Ysgol Llawr y Betws pan | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | oedd mewn argyfwng. Nid yw'n teimlo fod eisiau sefyll yn ôl a gadael i sefyllfaoedd felly ddigwydd eto.<br><br>Nodwyd ei bod yn ymwybodol fod trafodaethau o'r fath eisoes wedi eu cynnal yn yr ardal.<br><br>Cyfeiriwyd at y broses yn Nhywyn - bu 5 cyfarfod ac mae teimlad bod hyn yn ormod o ystyried awydd pobol i gael penderfyniad ac i ddiweddu'r ansicrwydd. Rhagwelir cynnal 3-4 cyfarfod yn Y Berwyn.<br><br>Y Cyng Liz Saville Roberts gyda chyngor y Panel Ymgynghorol Sirol yn y pendraw fydd yn dod i benderfyniad a bydd LSR yn cyflwyno ei chynnig i gyfarfod olaf Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn ac yn esbonio'r rhesymeg. Bydd y cynigion wedyn yn mynd trwy Bwyllgorau'r Cyngor.<br><br>Mae angen cadw buddiannau plant yn flaenllaw.<br><br>Mae croesdoriad o anghenion yn berthnasol i'r Berwyn ac mae'r anghenion yn atseinio drwy'r sir. Rhaid defnyddio adnoddau er lles pob plentyn. | | |
| **3.** | **Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y PAD** | Esboniodd DRJ ddatblygiad y strategaeth trwy waith y Gweithgor Gwella, a bod y Gweithgor wedi parhau fel Panel Ymgynghorol Sirol er mwyn cefnogi LSR. Siân Gwenllïan sy'n cynrychioli'r grŵp hwnnw yma.<br><br><u>Aelodaeth y PAD</u><br>Mae ardaloedd o sir Ddinbych a Chonwy yn bwydo Ysgol Y Berwyn. Awgrymwyd felly estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o ysgol Llangwm (Conwy) ac ysgol Cynwyd (Sir Ddinbych), yn benodol cadeirydd llywodraethwyr ysgol Llangwm, ac aelodau etholedig sy'n cynrychioli ardaloedd Llangwm a Chynwyd.<br><br><u>Cytunwyd</u> i wahodd yr uchod i gyfarfod nesaf PAD Y Berwyn. | SW | 6-11-09 |
| **4.** | **Amserlen a Chynllun Cyfathrebu** | Cyflwynodd SW y papur gan amlinellu'r bwriadau o ran codi ymwybyddiaeth.<br><br>Codwyd y cwestiwn am amser cychwyn y cyfarfodydd.<br>- bydd y trefniant fesul ysgol i'w cytuno rhwng ysgolion a swyddogion. Mae lle i fod yn hyblyg. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ystyriaeth i wahodd cynrychiolwyr o'r gymuned i'r cyfarfodydd mewn ysgolion unigol.<br><br>Cytunwyd y gellid gwneud hyn ar gais yr ysgol.<br>Cytunwyd fod yr amserlen a'r awgrymiadau o ran cyfathrebu yn dderbyniol. | | |
| **5.** | **Dadansoddiad ystadegol** | Nodwyd bod angen gwneud addasiadau i'r ddogfen ystadegol. O ganlyniad ni fu cytundeb llawn ar yr ystadegau.<br><br>Cytunwyd y byddai ysgolion yn addasu ac yn cadarnhau'r cynnwys. SW i ysgrifennu at yr ysgolion i gadarnhau'r hyn sydd ei angen ac erbyn pa bryd.<br><br>Ysgolion i ymateb cyn gynted â phosib. | SW<br><br>Pawb | 6-11-09<br><br>13-11-09 |
| **6.** | **Ceisiadau am wybodaeth Bellach** | a) i) Cafwyd cais i gynorthwyo ysgolion y dref i hyrwyddo trafodaethau.<br><br>Mae angen gwybodaeth am y gwaith cymunedol sy'n digwydd trwy'r ysgolion.<br><br>Trafodwyd llythyr pennaeth Y Berwyn ar gynllun drafft Cymdeithas yr Iaith (nodwyd nad oedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhan o drafod y cynllun) ar gyfer addysg ym Mhenllyn. Datganodd pennaeth Ysgol y Berwyn ei gefnogaeth mewn egwyddor i'r syniad o greu partneriaeth neu ffederasiwn i gwmpasu ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch, er nid oedd dehongliad na diffiniad pellach gan lywodraethwyr yr ysgol. Cefnogwyd yr egwyddor gan EE gan ddweud gallai cydweithio gydol oes gynnal yr Ysgol Uwchradd. Serch hynny, dywedwyd gan gynrychiolydd o gymuned Llandderfel nad oedd cefnogaeth o fewn y gymuned i'r cysyniad. Cytunwyd bod angen i swyddogion ystyried y cynnig a gwneud ychydig o waith modelu er mwyn asesu goblygiadau'r cynnig.<br><br>Cytuno: Swyddogion i wneud gwaith pellach.<br><br>ii) Gofynnodd LSR beth ddylai statws papur Cymdeithas yr Iaith fod mewn perthynas â'r grwp hwn. | SW | 30-11-09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | DE – ddim yn teimlo y byddai Cymdeithas yr Iaith eisiau bod yn aelodau o'r gweithgor.<br><br>Nifer o ysgolion ddim yn ymwybodol o ddogfen Cymdeithas yr Iaith.<br><br><u>Cytunwyd</u> fod angen cylchredeg papur Cymdeithas yr Iaith ac ymateb Ysgol y Berwyn at bob ysgol yn electroneg.<br><br>b) Cytunodd JB y byddai hyn yn wybodaeth ddefnyddiol ac y gellid ei drafod ynghyd â syniadau gyflwynwyd gan rai penaethiaid yn ystod ymweliad LSR/SG/JB yn yr ysgolion. Gallai hyn fod yn destun trafod cyn y PAD nesaf a hefyd yn destun trafod yn y cyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn Ionawr 2010.<br><br>c) Tynnwyd sylw at gylchlythyr newydd LlyC (Cylchlythr 23/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion). Ar sail cynnwys y cylchlythyr newydd, <u>cytunodd</u> y PAD i wneud cais am y wybodaeth isod.<br>- safonau'r ddarpariaeth gyfredol.<br>- nodi'n ffurfiol eu bod yn ystyried pob opsiwn.<br>- effaith ar y gymuned<br>- effaith newidiadau ar y Gymraeg<br>- rhagolygon cyllidol ysgolion. | SW<br><br>SW | 30-11-09<br><br>30-11-09 |
| **7.** | **Unrhyw Fater Arall** | a) Gofynnodd Dylan Edwards a fyddai o ddiddordeb i ddirprwyaeth o'r Berwyn fynd i siroedd eraill. Awgrymwyd gwahodd cyflwyniad gan y siroedd hynny yn y Bala yn hytrach nag anfon dirprwyaeth i'r siroedd.<br><br>Swyddogion hefyd i drefnu i un cynrychiolydd o bob ysgol ymweld â siroedd sydd á phrofiad o adeiladu ysgolion newydd ac o sefydlu trefniadau o gydweithio.<br><br>b) Dywedodd Mrs A E Jones (AEJ) oedd wedi bod yn bennaeth ar secondiad yn Sir Conwy llynedd ac oedd yn dysgu mewn ysgol sydd wedi cau erbyn hyn y byddai yn ddiolchgar am arweiniad. Teimlai bod angen arweiniad ar bob ysgol oedd yn gwynebu newid oherwydd yr hyn sydd o'u blaenau. Pryder y cylch yw | SW | 13-11-09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bod y dalgylch wedi cytuno ar fodel ffederal na chafwyd cefnogaeth yn y cynllun diwethaf. | SW/TB/HO | 30-11-09 |
| | | c) Nid oes syniad o fodel yn bodoli oherwydd byddai hynny'n groes i'r strategaeth. Awgrymodd LSR bod swyddogion yn dod i'r PAD nesaf gyda phob model posibl wedi ei amlinellu. | RWE | 2-12-09 |
| | | d) Cafwyd cais i drefnu ystafell fwy addas gyda byrddau a.y.b. erbyn y cyfarfod nesaf - 02-12-09. | SW | 1-12-09 |
| | | e) Cytunwyd i ohirio sesiynau ysgolion unigol 23-27 Tachwedd 09. Edrych ar gynnal y sesiynau yn ystod wythnos 11-15 Ionawr. Trefnu ymweliad yn y cyfamser. | Pawb | 13-11-09 |
| | | f) Cais hefyd gan LSR i'r PAD awgrymu unrhyw fodelau pellach cyn y cyfarfod nesaf. | | |
| **8.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | Nos Fercher 2 Rhagfyr 2009 mewn ystafell yn Ysgol y Berwyn. | | |
| **9.** | **Cloi** | Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod. | | |